# Gweithgareddau Darllen

## Lefel 4

**"Dysgu sut i ddarllen yw'r sylfaen i ddyfodol addysgol llwyddiannus…."**
**ESTYN**

Dyna yw'r nôd! Yma ceir nifer o weithgareddau sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau darllen eich disgyblion gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenant. Mae yma nifer o ffurfiau a gweithgareddau gwahanol i'w dewis a'u dethol yn ôl anghenion eich disgyblion. Ar ddechrau'r gweithgareddau ceir tudalen gynnwys sy'n nodi'r sgiliau penodol a ganolbwyntir arnynt, a'r rhai hynny, wrth reswm, yn deillio o'n Cwricwlwm Cenedlaethol.

# CYMRAEG yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

## Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio Darllen

## Darllen

### Sgiliau

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** ddefnyddio strategaethau amrywiol, *e.e. ffonics, adnabod geiriau*, fel bo'r angen, er mwyn datblygu fel darllenwyr

**2.** darllen eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill:
- a yn hyderus
- b yn ystyrlon
- c yn rhugl
- ch gyda mwynhad

**3.** defnyddio strategaethau gwahanol er mwyn canfod ystyr a chasglu gwybodaeth mewn testunau gan gynnwys:
- a cip ddarllen
- b llithr ddarllen
- c craff ddarllen
- ch rhagfynegi
- d defnyddio cyd-destun a gwybodaeth o iaith i ganfod yr hyn sydd ymhlyg mewn testun

**4.** adnabod nodweddion gwahanol genres o ran trefniadaeth, strwythur a chyflwyniad; sylwi ar y modd y gellir creu effeithiau drwy ddyfeisiau orgraff, sain a gair a gwahaniaethu rhwng ffaith a barn

**5.** ymateb yn ddeallus, yn glir ac mewn modd priodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r:
- a plot
- b digwyddiadau
- c cymeriadau
- ch syniadau
- d geirfa
- dd arddull
- e cywair
- f cyflwyniad
- ff ffurf

gan gynnig sylwadau neu farn a defnyddio termau perthnasol

**6.** chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio systemau trefnu gwybodaeth o bob math, gan gynnwys TGCh, *e.e. yr wyddor, mynegeion, catalogau*

**7.** defnyddio'r wybodaeth o iaith a ddaw o'u darllen i:
- a atgyfnerthu'r iaith a gyflwynwyd iddynt
- b datblygu dealltwriaeth o strwythur yr iaith
- c deall sut y mae ystod o atalnodi yn gymorth i gyfleu ystyr

**8.** darllen, ailddarllen a dwyn i gof yr hyn a ddarllenwyd ac ailadrodd y darnau y cafwyd blas arnynt; dysgu darnau ar y cof

**9.** ystyried sut y mae testunau'n newid wrth eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau.

### Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** ddatblygu fel darllenwyr brwdfrydig, annibynnol a myfyrgar

**2.** darllen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan gynnwys darllen:
- a gyda chefnogaeth
- b yn annibynnol
- c fesul pâr
- ch mewn grŵp
- d ar goedd

a gwrando gan ddilyn y print

**3.** profi amrywiaeth o destunau a ffurfiau gan gynnwys:
- a barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
- b deunydd sy'n cynnig her
- c deunydd sy'n ehangu'r gorwelion a'r meddwl
- ch deunydd sy'n cyflwyno gwybodaeth a deunydd cyfeiriol, gan gynnwys print y cyfryngau a deunydd cyfrifiadurol
- d detholiadau a thestunau cyflawn
- dd deunydd sy'n cynnwys ystod o nodweddion o ran strwythur a threfn.

| Teitl | Ffurf | Sgiliau Darllen | Tudalen(nau) |
|---|---|---|---|
| Ffrindiau Bach a Mawr | Barddoniaeth gyfoes | 3c, 3d, 4, 5 | 4 |
| Twyllo Mam | Barddoniaeth gyfoes | 3c, 3ch, 3d, 4, 5, 7a | 5 |
| Ifan Jones Evans | Cyfweliad | 3c, 3d, 4, 5f, 5ff, 7b, 9 | 6,7 |
| Meinir Gwilym | Cyfweliad | 3c, 3d, 4, 7a | 8,9 |
| Cwmni Gwyliau Da | Llythyr ffurfiol | 3c,3d, 4, 5dd, 5f, 5ff, 7a | 10,11 |
| Arthur Morris | Portread | 3c, 3d, 4, 5c, 5d, 7b | 12,13 |
| Cebabs Cig Oen Cymru | Rysait | 3c, 4, 6, 7b | 14,15 |
| Chwarae'n Troi'n Chwerw | Stori | 3c, 3d, 4, 4a, 5b, 5c | 16,17,18 |
| Caer Chwedlau | Testun ffeithiol | 3c, 4, 8 | 19,20,21 |
| Nadolig o Gwmpas y Byd | Testun ffeithiol | 3c, 4, 8 | 22,23,24 |
| Y Llyfrgell Genedlaethol | Testun ffeithiol | 3c, 3d, 4, 5dd, 5f, 5ff | 25, 26 |
| Dawns y Dail | Barddoniaeth draddodiadol | 3c, 3d, 4, 5dd, 5f, 5ff | 27 |
| Sioni Wynwns | Barddoniaeth draddodiadol | 3c, 3d, 4, 5dd, 5f, 5ff | 28 |
| Y Beibl | Tudalen gynnwys | 3b, 4, 6 | 29,30,31 |
| Heno, Heno | Tudalen gynnwys | 3b, 4, 6 | 32 |
| Blits | Clawr | 3b, 3d, 4, 5ff | 33, 34 |
| Geiriadur Gomer I'r Ifanc | Geiriadur | 3a, 4, 6 | 35 |
| Byd Môr-ladron | Mynegai | 3b, 4, 6 | 36 |
| Dal Smyglwyr | Dyddiadur | 3c, 3d, 4, 5f | 37 |
| Merched y Môr | Stori | 3c, 5d, 8 | 38 |
| Sbwriel! | Siart | 3d, 4, 5, 8 | 39 |
| Rhaglenni S4C | Amserlen | 3a, 3d, 4, 5 | 40,41 |
| Lliwiau | Barddoniaeth gyfoes | 3c, 3d, 4, 5dd, 7b | 42,43 |



# Ffrindiau Bach a Mawr

gan
Mererid Hopwood

**Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Sawl pennill sydd i'r gerdd?
2. A oes odl yma?  Beth yw'r patrwm?
3. Chwiliwch am gymhariaeth.
4. A fedrwch chi feddwl am eiriau eraill yn lle ***iach*** yn *chwarae'n iach*?
5. Pam fyddai'r plant eisiau bod yn ffrindiau gyda Gwen neu Gwyn?
6. Yn ôl y bardd, pryd mae angen ffrind?
7. Beth yw ystyr "bod yn ffrindiau mawr"?
8. Ydych chi'n hoffi'r gerdd?  Pam?



# Twyllo Mam

gan

Tudur Dylan Jones

**Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth fedrwch chi ddweud am y penillion?
2. A oes odl yma? Beth yw'r patrwm?
3. Beth mae'r bardd yn ceisio gwneud? Pa eiriau sy'n cefnogi hyn?
4. Sawl pennill sy'n sôn am yr hyn mae e'n mynd i wneud?
5. Beth yw ystyr yr ymadroddion:
   *pen yn hollti;* *lliain gwyn;* *yn goch drybeilig?*
6. Ydych chi'n credu ei fod e'n dweud wrth Mam? Pam?
7. Pa fath o gerdd yw hon? Pam ydych chi'n credu hyn?
8. Sut mae teimladau'r bardd yn newid yn ystod y gerdd?

# Ifan Jones Evans

Deunydd darllen:
**CIP**
Tachwedd 2007



## BYD BENDIGEDIG O BEIRIANNAU

**Faint ohonoch chi sydd wedi breuddwydio am gael gyrru tryc anferth? Neu injan dân neu ddigar? A beth am hedfan hofrennydd? Neu fod yn berchen ar robot?**

**Wel, mewn cyfres newydd ar Planed Plant, bydd Peirianhygoel yn rhoi cyfle i rai plant lwcus wneud hynny!**

**Bydd wyneb newydd yn cyflwyno'r gyfres efo Gwenllian Jones sef Ifan Jones Evans. Cip fu'n holi mwy am ei hanes . . .**

### Wyddost ti?

- Bod olwyn fawr y *London Eye* yn mesur 135m mewn uchder ac yn troi ar gyflymder o 0.9km yr awr.
- Y Bucketwheat Excavator yw peiriant cloddio mwyaf y byd sy'n mesur lled dau gae pêl-droed ac yn pwyso 13,000 o dunelli, pwysau tua 2166 o eliffantod! Mae dwy swyddfa yn rhan o'r peiriant ac mae'n cael ei ddefnyddio i gloddio glo yn Yr Almaen. Cost y peiriant yma yw £50 miliwn o bunnoedd.
- Mae tanc y fyddin yn gallu teithio ar eira, tywod, mwd, dŵr a thir creigiog gan gyrraedd cyflymder uchaf o 30 milltir yr awr.
- Mae hofrennydd yr heddlu yn costio bron i £4 miliwn ac yn gallu cyrraedd cyflymder o ddwy filltir y funud.

**Enw llawn:**
Ifan Jones Evans

**Oed:**
22

**O ble wyt ti'n dod?**
Pontrhydygroes ger Tregaron

**Peiriannau mawr neu beiriannau bach - pa rai sydd orau gen ti?**
Peiriannau mawr heb os! Gorau po fwyaf yw'r peiriant!

**Wyt ti wedi hoffi peiriannau ers yn ifanc?**
Wel, gan bo' fi'n fachgen fferm, rwy' wedi fy magu yng nghanol tractors, Jac Codi Baw a cherbydau eraill ac roeddwn yn arfer eu gyrru o gwmpas y fferm. Yn yr ardal lle rwy'n byw, rwy'n gallu reidio beiciau modur oddi ar yr heol gyda'm ffrindiau sy'n llawer o sbort.

**Oeddet ti'n gwybod llawer am beiriannau cyn cyflwyno'r rhaglen?**
Ro'n i'n gwybod eitha' lot gan y bues i'n gweithio fel mecanic am ychydig tra'r oeddwn i yn yr ysgol. Rwy'n ymddiddori mewn ceir a fy hoff raglen i yw *Top Gear*.

**Beth oedd y ffaith fwyaf anhygoel i ti ddod ar ei thraws tra'n ffilmio'r gyfres?**
Yn bendant, y Bucketwheat Excavator, sef peiriant cloddio mwya'r byd sydd i'w gael yn Yr Almaen. O'dd e'n beiriant ENFAWR, yr un hyd â chae pêl-droed o ran ei uchder a'r un lled â dau gae pêl-droed. Gan bo' fi'n ymddiddori mewn pêl-droed, roedd ymweld â fo ar ôl clywed am yr ystadegau yn beth arbennig iawn.

**Yn y rhaglen rwyt ti'n gyrru llawer o beiriannau diddorol. Pa un oedd y gorau gennyt ti?**
Y Ferrari F430. Dyna'r adrenalin rush mwyaf i mi erioed ei gael. Y peth gorau am y car oedd ei gyflymder - roedd yn gallu gwneud 0 - 60 milltir yr awr mewn amser byr iawn. Mae'n gallu cyrraedd cyflymder o bron i 200 milltir yr awr. Car pwerus dros ben. Ro'n i hefyd yn hoffi'r arogl newydd oedd i'r car - yn ogystal â'r seddi lledr cyfforddus!

**Beth yw dy ddiddordebau eraill?**
Rwy'n mwynhau pob math o chwaraeon, yn enwedig pêl-droed. Mae chwaraeon yn chwarae rhan bwysig yn fy mywyd i. Ar wahân i wylio *Top Gear* a gyrru beiciau modur, rwy'n hoff iawn o ffermio, gan i mi gael fy ngeni ar fferm a'm magu mewn awyrgylch wledig.

**Pa beiriannau wyt ti heb eu gweld, ond fyddet ti wrth dy fodd yn cael tro arnynt?**
Y Bugatti Veryon 16.4. Hwn yw car cyflyma'r byd, yr un mwyaf pwerus a'r un mwyaf costus ar hyn o bryd. Yn ôl pob sôn, gall gyrraedd cyflymder o ryw 255 milltir yr awr! Bydden i wrth fy modd yn cael ei yrru. Rwy wedi gweld un o bell pan es i i Silverstone ond eto i fod y tu mewn i un!


**Pa fath o gar wyt ti'n ei yrru?**
Volkswagen Golf GTTI tri drws lliw coch.



# Ifan Jones Evans

**Darllenwch y cyfweliad ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth fedrwch chi ddweud am gefndir Ifan? Nodwch bedair ffaith.
2. Nodwch bum ffaith am y peiriant *Bucketwheat Excavator*.
3. Ydy Ifan yn hoffi peiriannau? Sut ydyn ni'n gwybod hyn?
4. Beth wyddoch chi am y Ferrari F430?
5. Beth yw eich barn chi am y daflen wybodaeth? Trafodwch y gosodiad, y cynnwys a'r wybodaeth.
6. Pe baech chi'n cyfweld Ifan pa gwestiynau fyddech chi am ofyn iddo?



# Cyfweliad Meinir Gwilym

**Wyt ti'n brysur ar hyn o bryd?**
Ar hyn o bryd dwi'n brysur yn cyfansoddi. Dwi'n cael llawer o nosweithiau di gwsg! Mae bron yn flwyddyn ers rhyddhau fy albwm ddiweddaraf 'Sgandal Fain' ac yn bedair blynedd ers rhyddhau fy CD gyntaf, felly dwi wedi bod yn brysur iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Dwi'n cymryd fy amser ar hyn o bryd i sgwennu a chynllunio mymryn at y dyfodol. Dwi hefyd yn gweithio ar raglen geisiadau ar Radio Cymru yn y prynhawn, ac yn mwynhau hynny'n arw. Cysylltwch os ydach chi isho clywed cân!

**Disgrifia ddiwrnod arferol yn dy fywyd.**
Yn yr wythnos dwi'n codi (er bo fi isho aros yn fy ngwely!), yn cael brecwast, yn ateb e-bostiau ac yn gwneud gwaith papur neu yn chwarae gitâr, cyn mynd i gyflwyno rhaglen y pnawn. Ar benwythnos dwi unai'n canu mewn gig, neu yn mynd i'r stiwdio i recordio, yn mynd allan, yn treulio amser gyda fy nheulu, neu yn sgwennu.

Ar benwythnos gig dwi'n codi, yn cael brecwast, yn printio set list, yn pacio car, yn gwneud yn siŵr fod y band ar eu ffordd, yn mynd i brawf sain, yn aros o gwmpas, ac yn canu!

Ar benwythnos heb gig dwi'n aros yn fy ngwely, ac yn hoffi mynd am dro.

**Alli di roi hanes dy blentyndod i ni?**
Cefais fy magu yn Llangristiolus, yng nghanol Sir Fôn. Ro'n i'n hoffi gwneud dens, ffraeo efo fy mrodyr, gwneud 'make overs'. Ry'n ni'n deulu agos. Roedd bob amser digon i'w wneud!

**Pryd wnes ti ddechrau canu?**
Cwestiwn anodd i'w ateb, tebyg i 'pryd wnes ti ddechrau siarad?' Dwi ddim yn siŵr iawn, ond mae canu wedi bod yn rhan annatod o fy mywyd i erioed – yn rhywbeth dwi bob amser wedi ei wneud mewn rhyw ffordd neu'i gilydd... hymian a gwneud tiwns i fyny yn fy mhen. Adrodd oedd fy mheth i mewn eisteddfodau yn fwy na chanu. Ond roeddwn yn cyfansoddi am flynyddoedd, ac wedi mynd i'r coleg a gwneud ychydig o gyngherddau, penderfynais anfon 'demo tape' at label Gwynfryn Cymunedol. Recordiwyd EP a rhyddhawyd 'Smôcs Coffi a Fodca Rhad' ym mis Rhagfyr 2002 – a dyna ddechrau'r stori.

**Ydy dy deulu di'n gerddorol?**
Mae'n debyg ei fod o. Mae canu yn rhan o fywyd y teulu, ac yn rhywbeth yr ydan ni'n ei wneud mewn partis ac yn y blaen, fel llawer o deuluoedd eraill mae'n siŵr. Roedd fy nhaid yn ganwr da, a'm taid ar yr ochor arall yn bianydd ac yn arweinydd gwych.

**Faint o blant sydd yn y teulu?**
Tri ohonan ni. Mae gen i ddau frawd hŷn. Dim rhyfedd fod gen i bynsh dda.

**Disgrifia sut y byddi di'n mynd ati i ysgrifennu cân.**
Mae pob cân yn wahanol, a'r broses yn amrywio. Weithiau, mae'r alaw yn dod yn gyntaf, a'r geiriau'n dod wedyn. Weithiau daw ychydig eiriau yn gyntaf a'r gweddill wedyn efo'i gilydd. Dro arall mae'r gân yn gyflawn bron cyn cael ei hysgrifennu, ac yn dod allan i gyd efo'i gilydd yn un lli'.

**Oes gen ti ffefryn ymysg dy holl ganeuon?**
Na, mae bob cân yn golygu ac yn cynrychioli teimladau ac amser gwahanol i mi. Mae'n anodd hoffi neu beidio â'u hoffi nhw – maen nhw'n rhan ohonof fi. O ran hoff ganeuon i'w perfformio, mae'n newid efo beth mae'r gynulleidfa dwi'n canu iddyn nhw'n ei hoffi.

**Pwy yw dy hoff gyfansoddwr di?**
Dwi'n edmygu llawer o wahanol gyfansoddwyr am wahanol resymau. Un o fy hoff gyfansoddwyr caneuon poblogaidd yw Paul Simon. Rwy'n ffan mawr o eiriau Tecwyn Ifan hefyd.

**Oes 'na unrhyw beth doniol / ofnadwy wedi digwydd i ti ar lwyfan?**
Llawer o bethau. Dwi wedi anghofio geiriau, neu ganu'r geiriau anghywir a'r gynulleidfa yn canu'r geiriau iawn, dwi wedi anghofio plwgio fy ngitâr i mewn, wedi bron â syrthio wrth berfformio, wedi colli fy esgid... bob math o bethau gwirion, ond dim byd ofnadwy.

**Beth yw dy gynlluniau ar gyfer y dyfodol?**
Bydd caneuon newydd allan yn fuan, a dwi'n canolbwyntio ar gyfansoddi ar hyn o bryd. Bydd gigs dros y Dolig, a chofiwch bydd unrhyw fanylion ar meinirgwilym.com
Bydd y wefan hefyd yn cael ei huwchraddio cyn y Dolig.

**Beth yw dy freuddwyd ar gyfer y dyfodol?**
Fy unig freuddwyd ydi cael yr iechyd i wneud yr hyn ydw i eisiau, ac i wneud fy rhan.

**Oes yna unrhyw beth fuaset ti'n ei wneud yn wahanol petaet yn cael y cyfle eto?**
Na. Un cyfle yr ydan ni'n ei gael mewn bywyd. Does dim pwrpas mewn difaru, dim ond dysgu o'n camgymeriadau a cheisio gwneud ein gorau a bod yn deg bob amser.

**Pa gyngor fuaset ti'n ei roi i berson ifanc sydd am fod yn ganwr neu'n gantores broffesiynol?**
Creda ynot ti dy hun. Diolcha am bob cymorth, a gwerthfawroga bob cyfle. Gwna dy orau, a chadw dy hunaniaeth.



**Cyfweliad:** Afryl Davies

Deunydd darllen:
**CIP**
Hydref 2006



# Meinir Gwilym

**Darllenwch y cyfweliad ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Pwy yw Meinir Gwilym?
2. Pa fath o berson yw hi? Rhestrwch bum peth.
3. Sut mae hi'n mynd ati i gyfansoddi cân?
4. Pa gyngor sydd gan Meinir i berson ifanc?
5. Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr *hunaniaeth*?
6. Pe baech chi'n cyfweld Meinir pa gwestiynau fyddech chi am ofyn iddi?



Llys-y-Wennol,
Cwmafon,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3CM
24 ain o Awst

Cwmni Gwyliau Da,
Y Stryd Fawr,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3EE

Annwyl Syr / Fadam,

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â'n gwyliau i Barc Coed Pren. Roedd y gwyliau'n cael ei hysbysebu fel "gwyliau addas i deulu", ond yn anffodus roedden ni fel teulu wedi cael siom enfawr.

Roedd y Caban Pren lle roedden ni'n aros yn frwnt ofnadwy ac yn oer. Doedd dim un o'r gwresogyddion yn gweithio ac ar ôl cwyno ni ddaeth neb i'n gweld. Ar un adeg bu'n rhaid i ni roi bwced ar lawr i ddal y dŵr a oedd yn gollwng drwy'r to. Nid dyma'r math o le roedden ni wedi disgwyl ymlaen at gael aros ynddo.

Penderfynon ni fynd i'r pwll nofio a oedd yn cael ei hysbysebu fel "lle llawn hwyl i'r teulu cyfan". Nid dyna'r achos o gwbl. Roedd dŵr y pwll cyn oered â dŵr y môr. Roedd y llithren ddŵr ar gau ac roedd y plant wedi cael siom ofnadwy.

Gyda'r nos fe benderfynon ni fynd i'r bwyty oedd ar y campws. Dyna siom arall pan ddaeth y bwyd yn oer a di-flas i'r bwrdd.

Gymaint oedd ein siom fel i ni fynd yn ôl i'r caban a phacio ein bagiau a gyrru'r daith o ddwy awr a hanner adref i'n gwelyau clyd a chynnes.

Rwy'n gobeithio na fyddwch yn annog unrhyw deulu arall i dreulio eu gwyliau yn y Parc. Carwn gael ad-daliad am bris y gwyliau gan na wnaethon ni dreulio amser yno a bod y lle yn hollol anaddas i'n teulu ni.

Yr eiddoch yn gywir,
Meinir Jones
(mam i ddau o blant siomedig iawn)



# Cwmni Gwyliau Da

**Darllenwch y llythyr ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Pa fath o destun sydd yma? Trafodwch y ffurf, y cyflwyniad a 'r arddull.
2. Pwy sydd wedi ei ddanfon?
3. Beth wyddoch chi amdani? Rhestrwch dri pheth.
4. Sut mae'r llythyrwr yn teimlo? Pa eiriau mae'n defnyddio i gyfleu hyn?
5. Beth oedd yn bod ay Barc Gwyliau Cabanau Pren? Rhestrwch chwe pheth.
6. Pa ddau beth mae'r llythyrwr yn erfyn ar y cwmni gwyliau i'w gwneud?



# Arthur Morris

Er mai dyn bychan iawn o ran corff oedd Arthur Morris, roedd ganddo bersonoliaeth anferth. Roedd yn ffrind da i Mam-gu, a bu'n ffeind iawn wrthi ers iddi golli Tad-cu rai blynyddoedd yn ôl. Gŵr gweddw oedd yntau hefyd, a byddai'n galw i weld Mam-gu yn aml am baned a thipyn o gwmpeini, gan ddod ag ambell neges o'r siop a stori neu ddwy am hwn a'r llall gydag ef. Roedd Megan yn siŵr fod Arthur Morris yn gant oleia ond, yn ôl Mam, roedd yr un oed yn union â Mam-gu—saith deg pump. Roedd y bywyd caled a brofodd fel glöwr wedi gadael ôl arno, mae'n rhaid. Wyneb main, esgyrnog oedd ganddo, a hwnnw'n frith o rychau yn cris-croesi ei gilydd. Er hynny, roedd yn wyneb llawn caredigrwydd, a dawnsiai ei lygaid direidus fel dwy farblen loyw. Byddai wastad yn gwenu, gan ddangos gofod dudew ac ambell ddant pydredig, yn wir roedd yn hen bryd iddo gael dannedd gosod, meddyliodd Megan. Er na welodd ef erioed heb ei gap stabl, dychmygai mai pen moel oedd ganddo, oni bai am y ddau dusw bach o wallt arian, fel padiau Brillo garw, uwchben ei glustiau. Roedd ei gefn yn crymanu ychydig erbyn hyn oherwydd y cryd cymalau, ond roedd ei gerddediad yn sionc o hyd, ac yn ôl Mamgu, roedd yn 'fythol ifanc'.

Gwisgai'r un dillad bob amser, neu wahanol fersiynau o'r un dillad—trowser rib tywyll, a bresys yn eu dal i fyny, dros grys brethyn sgwarog, esgidiau trymion am ei draed, a'r hen gap stabl am ei ben. Ond yr hyn a gyfareddai Megan yn fwy na dim am Arthur Morris oedd ei ddwylo—dwylo ac ôl gwaith caled arnynt a chroen garw dros yr esgyrn brau, a'r gwythiennau fel nentydd dyfnion, croyw. Erbyn hyn roedd haenen drwchus o bridd wedi ymgartrefu'n barhaol o dan ei ewinedd—prawf pendant o'i hoffter o arddio, a theyrnged i'w holl waith caled dros y blynyddoedd yng ngardd ei gartref drws nesaf.

Detholiad allan o'r nofel
**Aderyn Brau**
(Cyfres yr Onnen)



# Arthur Morris

**Darllenwch y portread ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth oedd gwaith Arthur Morris cyn iddo ymddeol?
2. Sut ydych chi'n gwybod bod Arthur Morris yn gymydog da i Mam-gu?
3. Beth ydych chi'n ei wybod am Arthur Morris?
4. Disgrifiwch y cymeriad.
5. Beth yw ei ddiddordeb? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
6. A fyddech chi'n hoffi cael Arthur Morris yn gymydog i chi? Pam?

# Cebabs Cig Oen Cymru

Beth am ddilyn rysáit olaf *Cŵl i Goginio* yn **Cip**? Mae wyth rysáit blasus o *Cŵl i Goginio* wedi ymddangos yn **Cip** dros y misoedd diwethaf. Os wyt ti eisiau ail greu un o'r ryseitiau, syrffia draw i **urdd.org/cip** i'w darllen yn llawn!

**Yn gwneud:** 8 cebab
**Amser coginio:** 10 munud



**Byddi angen**

**Ar gyfer y marinad**
- 90ml (6 llwy fwrdd) olew olewydd
- 45ml (3 llwy fwrdd) sudd lemwn
- 1 ewin garlleg, wedi ei bilio a'i falu'n fân
- Pinsiad da o bupur du
- 30 ml (2 lwy fwrdd) perlysiau ffres wedi eu torri'n fân, fel basil

**Ar gyfer y cebabs**
- 450g (1lb) cig oen Cymru, wedi ei dorri'n giwbiau 3cm (mae stêcs coes heb asgwrn yn ddelfrydol)
- Gwahanol lysiau o dy ddewis di, er enghraifft;
- 2 *courgette* tenau
- 1 planhigyn wy (*aubergine*) hir a thenau
- 16 tomato bach
- 1 pupur coch, 1 pupur melyn

**Sut mae eu gwneud nhw**

1. Mewn dysgl fach cymysga gynhwysion y marinad gyda'i gilydd. Ychwanega'r ciwbiau cig, tro nhw yn dda, gorchuddia nhw â chling ffilm a rho nhw yn yr oergell am o leia awr.
2. Parato'r llysiau, torra'r pupurau yn sgwariau 3cm, golcha'r tomatos. Tafella'r *courgettes* a'r planhigyn wy ar eu hyd i wneud stribedi hir, tria eu torri'n weddol denau, tua 5mm o drwch. Gwna yn siŵr fod y stribedi yn ddigon hir i'w lapio o amgylch ciwb o gig, trimia'r stribedi i'r maint cywir.
3. Tynna'r cig o'r marinad a'i roi ar blât.
4. Lapia rai o'r ciwbiau oen gyda'r darnau *courgette* a'r lleill gyda'r tafelli planhigyn wy, yna'n ofalus iawn (mae'r gweill yn bigog!) gwthia nhw ar y gweill, gan ychwanegu'r tomatos a'r pupurau fel eu bod yn edrych yn ddeniadol ac yn lliwgar.
5. Cynhesa'r gril ymlaen llaw, rho nhw ar y badell grilio a'u brwsio gyda'r marinad. (Gelli eu coginio ar farbeciw hefyd).
6. Coginia nhw am tua deng munud, a'u troi nhw bob hyn a hyn i wneud yn siŵr eu bod wedi coginio'n gyson.




Deunydd darllen:
**CIP**
Rhagfyr 2009

Daw'r rysáit allan o *Cŵl i Goginio* gan Hybu Cig Cymru.
Diolch i Hybu Cig Cymru am gefnogi'r dudalen hon.



# Cibabs Cig Oen Cymru

**Darllenwch y rysait ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Pa bum cynhwysyn sydd yn y marinad?
2. Pa fath o gig sy'n ddelfrydol ar gyfer gwneud y cibabs?
3. Ar ôl cymysgu'r cynhwysion i wneud y marinad beth ddylid gwneud nesaf?
4. Sut y gellir coginio'r cibabs? (Enwch ddwy ffordd)
5. Pam fod y rysait wedi cael ei gyhoeddi mewn cyfrol o'r enw *Cŵl i Goginio*? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hyn?
6. At bwy mae'r gyfrol wedi cael ei hanelu? Pam ydych chi'n meddwl hyn?

# Chwarae'n Troi'n Chwerw

"Na, Emyr, chei di ddim tynnu'r beic yna allan o'r sied am o leia mis arall," dywedodd Elen Jones, ei fam, wrtho wrth olchi'r llestri brecwast.

"Ond Mam, fe fydd gwyliau'r haf drosodd erbyn hynny," protestiodd Emyr.

"Dim ond newydd gael y ffliw wyt ti," atebodd Mam, "mae'n rhaid i ti fod yn ofalus."

"Ond mae wythnos ers hynny, Mam, rydw i'n iawn nawr."

"Dyna ddigon," meddai ei fam yn bendant. "Fe gei di fynd am dro am ychydig, ond tyrd yn ôl erbyn cinio am hanner awr wedi deuddeg."

"Iawn," ochneidiodd Emyr.

Roedd Emyr wedi cael llond bol ar ei fam yn ffysian fel hyn drwy'r amser. Roedd hi'n ei drin fel bachgen bach ac yntau'n 12 oed.

Aeth Emyr yn syth i dŷ Geraint, ei ffrind gorau. Roedd y ddau yr un oed ac yn ffrindiau mawr ers blynyddoedd.


Pan gyrhaeddodd Emyr dŷ ei ffrind, roedd Geraint wrthi'n brysur yn pwmpio teiar ei feic.

"Ble mae dy feic di?" gofynnodd Geraint.

"Yn y sied," meddai Emyr yn ddigalon, "dim beic heddiw meddai Mam."

"Ond, rwyt ti'n well erbyn hyn!" dywedodd Geraint gyda syndod yn ei lais.

"Dw i'n gwybod," atebodd Emyr. "Ond does dim pwynt dweud hynny wrth Mam, dydy hi byth yn gwrando arna i."



"Wela i," meddai Geraint. "Wyt ti eisiau mynd am dro i Pant-Du? Fe alla i gerdded a gwthio fy meic. Bydd yn gyfle da i mi weld os ydy'r teiar yma yn dal gwynt."

Cytunodd Emyr.

Cerddodd y ddau i fyny allt Pant-Du. Ar ôl cyrraedd y top, eisteddodd y ddau am amser hir yn siarad am fynd yn ôl i'r ysgol ymhen tair wythnos. Roedd y ddau yn yr un dosbarth yn yr ysgol uwchradd. Roedden nhw hefyd yn chwarae'r trwmped ers blynyddoedd ac yn perthyn i fand yr ysgol. Roedd gan y band gyngerdd pwysig cyn y Nadolig.

Yn sydyn, neidiodd Emyr ar ei draed. "Faint o'r gloch ydy hi?" gwaeddodd.

Edrychodd Geraint ar ei oriawr. "Newydd droi hanner awr wedi un," meddai.

"O na," meddai Emyr. "Dywedodd Mam fod cinio'n barod am hanner awr wedi deuddeg. Rydw i'n hwyr!"

Dechreuodd redeg yn wyllt i lawr y llwybr.

"Hei, Emyr! Aros!" gwaeddodd Geraint ar ei ôl. "Fe fyddi di adref dipyn cynt os gei di reid gen i ar y beic."

"Iawn," atebodd Emyr mewn panic.

Neidiodd y ddau ar y beic, Emyr ar y sedd yn gafael yn dynn am ganol Geraint, a Geraint yn llywio.



Roedd y beic yn mynd yn gyflymach ac yn gyflymach. Ceisiodd Geraint arafu ond doedd y brêcs ddim yn gweithio'n dda iawn. Gwasgodd y brêcs yn galed. Stopiodd y beic, syrthiodd Geraint ac Emyr dros y beic a glanio ar y ffordd galed.

Deunydd darllen:
**Chwarae'n Troi'n Chwerw**
Papur TASau 2005

Bu rhaid iddyn nhw fynd i'r ysbyty. Doedd Emyr ddim wedi ei anafu'n ddrwg, ond nid felly Geraint. Roedd wedi anafu ei wyneb yn ddrwg. Roedd hefyd wedi colli ei ddannedd blaen. Bu yn yr ysbyty am oriau. Dywedodd y doctor wrtho na fyddai'n gallu chwarae'r trwmped am amser hir iawn.

Ni ddywedodd Elen Jones air o'i phen wrth Emyr yn y car ar y ffordd adref o'r ysbyty. Roedd yn amlwg mewn tymer ddrwg. Ar ôl cyrraedd gartref dywedodd wrth Emyr am beidio â mynd yn agos at Geraint fyth eto.


"Mae'r bachgen yna'n dy arwain i drwbwl o hyd," dywedodd yn gas.

"Ond Mam, Geraint ydy fy ffrind gorau," atebodd Emyr.

"Ddim o hyn ymlaen," meddai ei fam yn gadarn.

Roedd Geraint yn methu â deall pam na ddaeth Emyr i'w weld ar ôl y ddamwain. Aeth i dŷ Emyr sawl gwaith ond doedd neb yn ateb y drws. Ceisiodd ffonio, ond mam Emyr fyddai'n ateb y ffôn ac yn dweud nad oedd Emyr ar gael.

Ym mis Medi, aeth pawb yn ôl i'r ysgol. Ar y bws ysgol, eisteddodd Emyr cyn belled ag y gallai oddi wrth Geraint. Ceisiodd Geraint siarad gydag Emyr ond cerddai Emyr i ffwrdd bob tro heb ddweud dim. Doedd Geraint ddim yn deall y peth. Nid ei fai ef oedd y ddamwain. Ac roedd y ddau ohonyn nhw'n ffrindiau gorau, i fod.



Roedd Emyr yn ei gweld yn rhyfedd iawn yn ymarfer y band heb Geraint. Roedd yn meddwl llawer amdano, ond ni siaradodd gydag ef o gwbl, byddai Mam yn mynd yn wallgo!

Ym mis Hydref, roedd pen-blwydd Geraint yn 13 oed. Cafodd set o ddrymiau yn anrheg gan ei rieni. Roedd wrth ei fodd a daeth ei ffrindiau i gyd i weld y drymiau newydd. Pawb ond Emyr.

Cyn hir, roedd Geraint a rhai o'i ffrindiau wedi dechrau grŵp. Roedden nhw'n ymarfer yn y garej bob nos ac roedden nhw'n cael llawer o hwyl.

Un noson, daeth cnoc ar ddrws Geraint. Emyr oedd yno.

"Helo, Geraint," dywedodd gan edrych i lawr ar ei draed.

"Haia," atebodd Geraint yn swta. "Beth wnest ti, taro dy ben yn y ddamwain beic ac anghofio pwy oedd dy ffrind gorau di?"

"Na," atebodd Emyr. "Mae'n ddrwg gen i. Ond dywedodd Mam wrtha i am chwilio am ffrind arall yn dy le di."

"Ac wrth gwrs mae'n rhaid gwrando ar beth mae Mam yn ei ddweud bob amser," meddai Geraint.

"Paid â bod fel 'na, Geraint," meddai Emyr. "Dydy Mam ddim yn gwybod fy mod i yma heno, neu fe fuaswn mewn trwbwl. Mae'r bachgen sydd yn chwarae drymiau yn y band yn rhoi'r gorau iddi. Fyddet ti'n hoffi dod i chwarae drymiau yn ei le?"



"Dim diolch," atebodd Geraint.

"Pam?" gofynnodd Emyr. "Rydyn ni'n ffrindiau ers blynyddoedd, mi fydden ni'n gallu cael hwyl eto yn y band, heb i Mam wybod dim."

"Na," dywedodd Geraint yn bendant. "Mi ydw i'n rhy brysur efo'r grŵp. Mae ffrindiau da yn aros gyda'i gilydd drwy bopeth. Cer adre at Mami!"

Aeth Geraint i'r tŷ a chau'r drws.

Deunydd darllen:

**Chwarae'n Troi'n Chwerw**

Papur TASau 2005



# Chwarae'n troi'n chwerw

**Darllenwch y stori ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth wyddoch chi am Emyr? Nodwch bum ffaith.
2. Pa fath o berson yw mam Emyr? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hyn?
3. Sut mae perthynas y ddau ffrind yn newid yn ystod y stori?
4. A ddylai Emyr fod wedi mynd i Bant-Du? Defnyddiwch y wybodaeth o'r testun.
5. Ydy "Chwarae'n Troi'n Chwerw" yn deitl da i'r stori? Pam?
6. Beth sy'n gwneud ffrind da? Meddyliwch am bum peth.






## Mae rhywbeth diddorol tu hwnt yn digwydd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar hyn o bryd. Beth sy'n mynd ymlaen tybed?

Mae hen adeiladau fferm Cefn Cwrt sydd ar dir y gwersyll wedi cael eu newid i fod yn Gaer Chwedlau. Dyna beth yw cyffro! Meddylia – caer o chwedlau sydd ar gael erbyn hyn i bawb sydd yn dod i ymweld â Gwersyll yr Urdd Llangrannog.

Cama i mewn i'r adeilad a byddi'n siŵr o anghofio mai yn Llangrannog wyt ti gan fod llond y lle o hanes, a hud a lledrith y gorffennol.

Wyt ti eisiau gwybod mwy am Syr Ifan ab Owen Edwards a'r bwrlwm a oedd yng Nghymru pan ymaelododd y plentyn cyntaf â'r Urdd yn ôl ym 1922?

A beth am fynd yn ôl i gyfnod yr hen smyglwyr fel Siôn Cwilt ar draeth Llangrannog a darllen mwy o hanesion anhygoel yr awdur o ardal Llangrannog, T. Llew Jones? Dyna rai o'r pethau sydd ar gael i ti yng Nghaer Chwedlau! Pwy â ŵyr, falle y clywi di rai o leisiau'r gorffennol yn siarad gyda ti!

### Urdd Gobaith Cymru

urdd.org

Wyt ti wedi ymaelodi ag Urdd Gobaith Cymru yn 2007? Oeddet ti'n gwybod fod plant yr un oed â ti yn aelodau o'r Urdd dros wyth deg mlynedd yn ôl? Waw – am amser hir! Yng Nghaer Chwedlau gelli di gau dy lygaid ac esgus dy fod di nôl ym 1922 a dilyn hanes cyffrous yr Urdd ar hyd y degawdau!

Y dyn pwysig a gafodd y syniad o ddechrau Urdd Gobaith Cymru oedd Syr Ifan ab Owen Edwards, ac os ddei di i Wersyll yr Urdd Llangrannog neu i Wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn fe weli di lun ohono ar y wal. Os wyt ti'n byw yn agos at bentref Llanuwchllyn ger Y Bala, beth am fynd i weld cerflun o Syr Ifan a'i dad ar y sgwâr? Ar y dechrau roedd plant yn y gwersylloedd yn aros mewn cabanau pren yn wahanol iawn i'r ystafelloedd moethus *en-suite* sydd gyda ti heddiw.

Wyt ti erioed wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd? Erbyn heddiw mae 45,000 yn dod i gystadlu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn. Ond ym 1930, 3,000 wnaeth gystadlu!

Beth am ymweld â Chaer Chwedlau i weld sut y mae'r Urdd wedi newid dros y blynyddoedd? Tybed a oedd plant yn y 1950au yn cael gwibgartio a syrffio'r we…?!


### Cornel Stori Caer Chwedlau

Beth am fynd i wlad yr enwau rhyfedd a darllen am hanes y ffermwr oedd ag enwau od ar bob dim? Druan â gwas y fferm! Sut oedd e fod i gofio mai 'Haleliwia' oedd yr enw ar y ffynnon, mai 'mwsh-mwsh' oedd y gath, ac mae'r 'mingagor' oedd y sgubor?!

Neu beth am ddarllen hanes merched y môr sy'n esbonio pam fod cri'r gwylanod mor drist?

Pam oedd 'na fuwch ar y to, a Siôn y ffermwr yng nghanol y crochan cawl? A beth oedd cyfrinach fawr y Brenin March ap Meirchion?

Dyna rai o'r cwestiynau sy'n cael eu hateb wrth i ti grwydro drwy'r Caer Chwedlau!



**Os hoffet ti wybod mwy neu os hoffet ti ddod i weld Caer Chwedlau ffonia T Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar 01239 654 868 neu anfon e bost at teleri@urdd.org**

Deunydd darllen:
**Cip**
Ebrill 2007








Mae rhywbeth diddorol tu hwnt yn digwydd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar hyn o bryd. Beth sy'n mynd ymlaen tybed?

Mae hen adeiladau fferm Cefn Cwrt sydd ar dir y gwersyll wedi cael eu newid i fod yn Gaer Chwedlau. Dyna beth yw cyffro! Meddylia – caer o chwedlau sydd ar gael erbyn hyn i bawb sydd yn dod i ymweld â Gwersyll yr Urdd Llangrannog.

Cama i mewn i'r adeilad a byddi'n siŵr o anghofio mai yn Llangrannog wyt ti gan fod llond y lle o hanes, a hud a lledrith y gorffennol.

Wyt ti eisiau gwybod mwy am Syr Ifan ab Owen Edwards a'r bwrlwm a oedd yng Nghymru pan ymaelododd y plentyn cyntaf â'r Urdd yn ôl ym 1922?

A beth am fynd yn ôl i gyfnod yr hen smyglwyr fel Siôn Cwilt ar draeth Llangrannog a darllen mwy o hanesion anhygoel yr awdur o ardal Llangrannog, T. Llew Jones? Dyna rai o'r pethau sydd ar gael i ti yng Nghaer Chwedlau! Pwy â ŵyr, falle y clywi di rai o leisiau'r gorffennol yn siarad gyda ti!

## Urdd Gobaith Cymru

urdd.org

Wyt ti wedi ymaelodi ag Urdd Gobaith Cymru yn 2007? Oeddet ti'n gwybod fod plant yr un oed â ti yn aelodau o'r Urdd dros wyth deg mlynedd yn ôl? Waw – am amser hir! Yng Nghaer Chwedlau gelli di gau dy lygaid ac esgus dy fod di nôl ym 1922 a dilyn hanes cyffrous yr Urdd ar hyd y degawdau!

Y dyn pwysig a gafodd y syniad o ddechrau Urdd Gobaith Cymru oedd Syr Ifan ab Owen Edwards, ac os ddei di i Wersyll yr Urdd Llangrannog neu i Wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn fe weli di lun ohono ar y wal. Os wyt ti'n byw yn agos at bentref Llanuwchllyn ger Y Bala, beth am fynd i weld cerflun o Syr Ifan a'i dad ar y sgwâr? Ar y dechrau roedd plant yn y gwersylloedd yn aros mewn cabanau pren yn wahanol iawn i'r ystafelloedd moethus *en-suite* sydd gyda ti heddiw.

Wyt ti erioed wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd? Erbyn heddiw mae 45,000 yn dod i gystadlu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn. Ond ym 1930, 3,000 wnaeth gystadlu!

Beth am ymweld â Chaer Chwedlau i weld sut y mae'r Urdd wedi newid dros y blynyddoedd? Tybed a oedd plant yn y 1950au yn cael gwibgartio a syrffio'r we…?!

## Cornel Stori Caer Chwedlau

Beth am fynd i wlad yr enwau rhyfedd a darllen am hanes y ffermwr oedd ag enwau od ar bob dim? Druan â gwas y fferm! Sut oedd e fod i gofio mai 'Haleliwia' oedd yr enw ar y ffynnon, mai 'mwsh-mwsh' oedd y gath, ac mae'r 'mingagor' oedd y sgubor?!

Neu beth am ddarllen hanes merched y môr sy'n esbonio pam fod cri'r gwylanod mor drist?

Pam oedd 'na fuwch ar y to, a Siôn y ffermwr yng nghanol y crochan cawl? A beth oedd cyfrinach fawr y Brenin March ap Meirchion?

Dyna rai o'r cwestiynau sy'n cael eu hateb wrth i ti grwydro drwy'r Caer Chwedlau!

Os hoffet ti wybod mwy neu os hoffet ti ddod i weld Caer Chwedlau ffonia Teleri yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar **01239 654 868** neu anfon e bost at **teleri@urdd.org**

Deunydd darllen:
**Cip**
Ebrill 2007


# Gwir neu gau?





1. Mae hen adeiladau fferm Cefn Cwrt sydd ar dir y gwersyll wedi cael eu newid i fod yn Gaer Chwedlau.
2. Ymaelododd y plentyn cyntaf â'r Urdd ym 1922.
3. Mae straeon am smyglwyr a chymeriadau diddorol i'w gweld a'u clywed yng Nghaer Chwedlau.
4. Syniad T Llew Jones oedd dechrau Urdd Gobaith Cymru.
5. Ym mhentref Llanuwchllyn ger y Bala mae cerflun o Syr Ifan a'i dad.
6. Mae ystafelloedd moethus *en-suite* yn y gwersyll heddiw.
7. Ar ddechrau'r gwersylloedd roedd y plant yn cysgu mewn ystafelloedd moethus.
8. Heddiw, mae 3,000 o blant a phobl ifainc yn dod i gystadlu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn.
9. Mae Gwersyll yr Urdd Llangrannog ar bwys Gwersyll yr Urdd Glanllyn.
10. Mae plant yn medru gwibgartio a syrffio'r We yn Llangrannog heddiw.
11. Un o smyglwyr yr ardal oedd Siôn Cwilt.
12. Does dim llawer o aelodau gan Urdd Gobaith Cymru.








## Mae rhywbeth diddorol tu hwnt yn digwydd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar hyn o bryd. Beth sy'n mynd ymlaen tybed?

Mae hen adeiladau fferm Cefn Cwrt sydd ar dir y gwersyll wedi cael eu newid i fod yn Gaer Chwedlau. Dyna beth yw cyffro! Meddylia – caer o chwedlau sydd ar gael erbyn hyn i bawb sydd yn dod i ymweld â Gwersyll yr Urdd Llangrannog.

Cama i mewn i'r adeilad a byddi'n siŵr o anghofio mai yn Llangrannog wyt ti gan fod llond y lle o hanes, a hud a lledrith y gorffennol.

Wyt ti eisiau gwybod mwy am Syr Ifan ab Owen Edwards a'r bwrlwm a oedd yng Nghymru pan ymaelododd y plentyn cyntaf â'r Urdd yn ôl ym 1922?

A beth am fynd yn ôl i gyfnod yr hen smyglwyr fel Siôn Cwilt ar draeth Llangrannog a darllen mwy o hanesion anhygoel yr awdur o ardal Llangrannog, T. Llew Jones? Dyna rai o'r pethau sydd ar gael i ti yng Nghaer Chwedlau! Pwy â ŵyr, falle y clywi di rai o leisiau'r gorffennol yn siarad gyda ti!

### Urdd Gobaith Cymru

urdd.org

Wyt ti wedi ymaelodi ag Urdd Gobaith Cymru yn 2007? Oeddet ti'n gwybod fod plant yr un oed â ti yn aelodau o'r Urdd dros wyth deg mlynedd yn ôl? Waw – am amser hir! Yng Nghaer Chwedlau gelli di gau dy lygaid ac esgus dy fod di nôl ym 1922 a dilyn hanes cyffrous yr Urdd ar hyd y degawdau!

Y dyn pwysig a gafodd y syniad o ddechrau Urdd Gobaith Cymru oedd Syr Ifan ab Owen Edwards, ac os ddei di i Wersyll yr Urdd Llangrannog neu i Wersyll yr Urdd yng Nglan-llyn fe weli di lun ohono ar y wal. Os wyt ti'n byw yn agos at bentref Llanuwchllyn ger Y Bala, beth am fynd i weld cerflun o Syr Ifan a'i dad ar y sgwâr? Ar y dechrau roedd plant yn y gwersylloedd yn aros mewn cabanau pren yn wahanol iawn i'r ystafelloedd moethus *en-suite* sydd gyda ti heddiw.

Wyt ti erioed wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd? Erbyn heddiw mae 45,000 yn dod i gystadlu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn. Ond ym 1930, 3,000 wnaeth gystadlu!

Beth am ymweld â Chaer Chwedlau i weld sut y mae'r Urdd wedi newid dros y blynyddoedd? Tybed a oedd plant yn y 1950au yn cael gwibgartio a syrffio'r we...?!

### Cornel Stori Caer Chwedlau

Beth am fynd i wlad yr enwau rhyfedd a darllen am hanes y ffermwr oedd ag enwau od ar bob dim? Druan â gwas y fferm! Sut oedd e fod i gofio mai 'Haleliwia' oedd yr enw ar y ffynnon, mai 'mwsh-mwsh' oedd y gath, ac mae'r 'mingagor' oedd y sgubor?!

Neu beth am ddarllen hanes merched y môr sy'n esbonio pam fod cri'r gwylanod mor drist?

Pam oedd 'na fuwch ar y to, a Siôn y ffermwr yng nghanol y crochan cawl? A beth oedd cyfrinach fawr y Brenin March ap Meirchion?

Dyna rai o'r cwestiynau sy'n cael eu hateb wrth i ti grwydro drwy'r Caer Chwedlau!

Os hoffet ti wybod mwy neu os hoffet ti ddod i weld Caer Chwedlau ffonia Teleri yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar **01239 654 868** neu anfon e bost at **teleri@urdd.org**

Deunydd darllen:
**Cip**
Ebrill 2007

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Mae hen adeiladau fferm Cefn Cwrt sydd ar dir y gwersyll wedi cael eu newid i fod yn Gaer Chwedlau.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Ymaelododd y plentyn cyntaf â'r Urdd ym 1922.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Mae straeon am smyglwyr a chymeriadau diddorol i'w gweld a'u clywed yng Nghaer Chwedlau.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Syniad T Llew Jones oedd dechrau Urdd Gobaith Cymru.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Ym mhentref Llanuwchllyn ger y Bala mae cerflun o Syr Ifan a'i dad.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Mae ystafelloedd moethus *en-suite* yn y gwersyll heddiw.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Ar ddechrau'r gwersylloedd roedd y plant yn cysgu mewn ystafelloedd moethus.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Heddiw mae 3000 o blant a phobl ifainc yn dod i gystadlu yn yr Eisteddfod bob blwyddyn.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Mae Gwersyll yr Urdd Llangrannog ar bwys Gwersyll yr Urdd Glanllyn.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Mae plant yn medru gwibgartio a syrffio'r we yn Llangrannog heddiw.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Un o smyglwyr yr ardal oedd Siôn Cwilt.

**Gwir neu gau?** ✓ ✗
Does dim llawer o aelodau gan Urdd Gobaith Cymru.

Deunydd darllen:
Cip
Rhagfyr 2006



# Nadolig o gwmpas y byd!

**Mae'r Nadolig yn nesáu erbyn hyn a phawb yn edrych ymlaen at glywed stori'r geni, at fwyta cinio Dolig, ac at gael gwyliau o'r ysgol! Wyt ti wedi prynu dy anrhegion Nadolig ac wedi ysgrifennu dy lythyr at Siôn Corn? Beth gei di i ginio Dolig eleni? Mae pob un ohonon ni wrth ein bodd gyda Gŵyl y Geni, ond sut mae pobl eraill o gwmpas y byd yn dathlu'r Nadolig? Edrych ar fap o'r byd i weld os fedri di weld y gwledydd hyn arno.**

## AFFRICA

- Yn Ne Affrica mae pobl yn mynd i'r traeth a'r mynyddoedd ar ddydd Nadolig.
- Maen nhw'n gwledda ac yn chwarae gemau.
- Yn Ethiopia mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu ar Ionawr y 7fed sy'n cael ei adnabod fel Dydd y Tri Brenin.
- Mae blodau a dail coed palmwydd yn cael eu defnyddio i addurno cartrefi ac mewn lleoedd o addoliad.

## ARMENIA

- Yn Armenia caiff canhwyllau eu cynnau i ddathlu'r Nadolig.
- Mae plant yn rhoi afalau gyda cheiniog ynddyn nhw yn anrhegion i'w gilydd.
- Traddodiad arall yw dringo ar ben to tŷ eich cymydog, a gollwng basged i lawr yn llawn melysion ac anrhegion!

## SIAPAN

- Mae tangerîns a *fortune cookies* yn addurno'r cartrefi a'r coed.
- Mae gŵyl y flwyddyn newydd yn gyffrous iawn yn Siapan hefyd - mae'n dechrau ym mis Tachwedd ac yn parhau drwy Rhagfyr i'r flwyddyn newydd.

## 5 ffaith ddiddorol am y Nadolig:

- Dim ond saith Nadolig gwyn a gafodd y wlad hon drwy gydol yr ugeinfed ganrif.
- Bob blwyddyn mae 35 miliwn o goed Nadolig yn cael eu haddurno!
- Rhwng 1647 a 1660 penderfynodd y Llywodraeth fod dathlu'r Nadolig yn anghyfreithlon!
- Crëwyd y cerdyn Dolig gyntaf ym 1843 gan Syr Henry Cole.
- Dyn o'r enw Edward Johnson a gafodd y syniad o roi goleuadau ar goeden Nadolig ym 1879.

## MECSICO

- Ym Mecsico mae'r Nadolig yn dechrau gyda thraddodiad o'r enw *posadas* sy'n parhau am naw diwrnod. Mae'r *posadas* yn symbol o'r cyfnod pan fuodd Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem ac yn chwilio am lety.
- Caiff anrhegion eu rhoi a'u derbyn ar Ionawr y 6ed.
- Mae plant yn ysgrifennu llythyron at y *Magi* ac yn sôn am y pethau da maen nhw wedi eu gwneud a'r anrhegion y bydden nhw yn hoffi eu derbyn... yn debyg iawn i ti yn ysgrifennu llythyr at Siôn Corn!

## DENMARC

- Mae gwledd y Nadolig yn cael ei bwyta ar noswyl y Nadolig
- Mae pawb yn bwyta rhyw fath o bwdin reis arbennig a chaiff cneuen almwnd ei chuddio ynddo. Bydd pwy bynnag sy'n darganfod y gneuen yn cael lwc dda am y flwyddyn sydd i ddod.

Lluniau: Dorian S Davies

18 19





# Nadolig o gwmpas y byd!

**Mae'r Nadolig yn nesáu erbyn hyn a phawb yn edrych ymlaen at glywed stori'r geni, at fwyta cinio Dolig, ac at gael gwyliau o'r ysgol! Wyt ti wedi prynu dy anrhegion Nadolig ac wedi ysgrifennu dy lythyr at Siôn Corn? Beth gei di i ginio Dolig eleni? Mae pob un ohonon ni wrth ein bodd gyda Gŵyl y Geni, ond sut mae pobl eraill o gwmpas y byd yn dathlu'r Nadolig? Edrych ar fap o'r byd i weld os fedri di weld y gwledydd hyn arno.**

**AFFRICA**

- Yn Ne Affrica mae pobl yn mynd i'r traeth a'r mynyddoedd ar ddydd Nadolig.
- Maen nhw'n gwledda ac yn chwarae gemau.
- Yn Ethiopia mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu ar Ionawr y 7fed sy'n cael ei adnabod fel Dydd y Tri Brenin.
- Mae blodau a dail coed palmwydd yn cael eu defnyddio i addurno cartrefi ac mewn lleoedd o addoliad.

**ARMENIA**

- Yn Armenia caiff canhwyllau eu cynnau i ddathlu'r Nadolig.
- Mae plant yn rhoi afalau gyda cheiniog ynddyn nhw yn anrhegion i'w gilydd.
- Traddodiad arall yw dringo ar ben to tŷ eich cymydog, a gollwng basged i lawr yn llawn melysion ac anrhegion!

**SIAPAN**

- Mae tangerîns a *fortune cookies* yn addurno'r cartrefi a'r coed.
- Mae gŵyl y flwyddyn newydd yn gyffrous iawn yn Siapan hefyd - mae'n dechrau ym mis Tachwedd ac yn parhau drwy Rhagfyr i'r flwyddyn newydd.

**MECSICO**

- Ym Mecsico mae'r Nadolig yn dechrau gyda thraddodiad o'r enw *posadas* sy'n parhau am naw diwrnod. Mae'r *posadas* yn symbol o'r cyfnod pan fuodd Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem ac yn chwilio am lety.
- Caiff anrhegion eu rhoi a'u derbyn ar Ionawr y 6ed.
- Mae plant yn ysgrifennu llythyron at y *Magi* ac yn sôn am y pethau da maen nhw wedi eu gwneud a'r anrhegion y bydden nhw yn hoffi eu derbyn... yn debyg iawn i ti yn ysgrifennu llythyr at Siôn Corn!

**DENMARC**

- Mae gwledd y Nadolig yn cael ei bwyta ar noswyl y Nadolig
- Mae pawb yn bwyta rhyw fath o bwdin reis arbennig a chaiff cneuen almwnd ei chuddio ynddo. Bydd pwy bynnag sy'n darganfod y gneuen yn cael lwc dda am y flwyddyn sydd i ddod.

Lluniau: Dorian S Davies

**5 ffaith ddiddorol am y Nadolig:**

- Dim ond saith Nadolig gwyn a gafodd y wlad hon drwy gydol yr ugeinfed ganrif.
- Bob blwyddyn mae 35 miliwn o goed Nadolig yn cael eu haddurno!
- Rhwng 1647 a 1660 penderfynodd y Llywodraeth fod dathlu'r Nadolig yn anghyfreithlon!
- Crëwyd y cerdyn Dolig gyntaf ym 1843 gan Syr Henry Cole.
- Dyn o'r enw Edward Johnson a gafodd y syniad o roi goleuadau ar goeden Nadolig ym 1879.

**Deunydd darllen:**
**Cip**
**Rhagfyr 2006**

# Gwir neu gau?





1. Yn Ethiopia maen nhw'n dathlu'r Nadolig ar Ionawr y 7fed.
2. Rydyn ni'n dathlu'r Nadolig ar Ragfyr y 24ain.
3. Yn Nenmarc maen nhw'n bwyta gwledd y Nadolig ar noswyl Nadolig.
4. Dydy pobl Mecsico ddim yn rhoi anrhegion i'w gilydd.
5. Bob blwyddyn mae 35 o goed Nadolig yn cael eu haddurno ar draws y Byd.
6. Crëwyd y cerdyn Nadolig cyntaf gan Syr Henry Cole ym 1843.
7. Yn Armenia mae'r plant yn rhoi orennau yn anrhegion i'w gilydd.
8. Mae gŵyl y flwyddyn newydd yn ŵyl gyffrous iawn ym Mecsico.
9. Dim ond saith Nadolig gwyn a gafodd Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.
10. Mae plant bach Mecsico yn danfon eu llythyron at y *Magi*—sy'n debyg i'n Siôn Corn ni.
11. Yng Nghymru mae pobl yn dathlu'r Nadolig ar y traeth.
12. Dydy pobl Armenia ddim yn hoffi canhwyllau.





# Nadolig o gwmpas y byd!

**Mae'r Nadolig yn nesáu erbyn hyn a phawb yn edrych ymlaen at glywed stori'r geni, at fwyta cinio Dolig, ac at gael gwyliau o'r ysgol! Wyt ti wedi prynu dy anrhegion Nadolig ac wedi ysgrifennu dy lythyr at Siôn Corn? Beth gei di i ginio Dolig eleni? Mae pob un ohonon ni wrth ein bodd gyda Gŵyl y Geni, ond sut mae pobl eraill o gwmpas y byd yn dathlu'r Nadolig? Edrych ar fap o'r byd i weld os fedri di weld y gwledydd hyn arno.**

**AFFRICA**

- Yn Ne Affrica mae pobl yn mynd i'r traeth a'r mynyddoedd ar ddydd Nadolig.
- Maen nhw'n gwledda ac yn chwarae gemau.
- Yn Ethiopia mae'r Nadolig yn cael ei ddathlu ar Ionawr y 7fed sy'n cael ei adnabod fel Dydd y Tri Brenin.
- Mae blodau a dail coed palmwydd yn cael eu defnyddio i addurno cartrefi ac mewn lleoedd o addoliad.

**ARMENIA**

- Yn Armenia caiff canhwyllau eu cynnau i ddathlu'r Nadolig.
- Mae plant yn rhoi afalau gyda cheiniog ynddyn nhw yn anrhegion i'w gilydd.
- Traddodiad arall yw dringo ar ben to tŷ eich cymydog, a gollwng basged i lawr yn llawn melysion ac anrhegion!

**SIAPAN**

- Mae tangerîns a *fortune cookies* yn addurno'r cartrefi a'r coed.
- Mae gŵyl y flwyddyn newydd yn gyffrous iawn yn Siapan hefyd - mae'n dechrau ym mis Tachwedd ac yn parhau drwy Rhagfyr i'r flwyddyn newydd.

**MECSICO**

- Ym Mecsico mae'r Nadolig yn dechrau gyda thraddodiad o'r enw *posadas* sy'n parhau am naw diwrnod. Mae'r *posadas* yn symbol o'r cyfnod pan fuodd Mair a Joseff yn teithio i Fethlehem ac yn chwilio am lety.
- Caiff anrhegion eu rhoi a'u derbyn ar Ionawr y 6ed.
- Mae plant yn ysgrifennu llythyron at y *Magi* ac yn sôn am y pethau da maen nhw wedi eu gwneud a'r anrhegion y bydden nhw yn hoffi eu derbyn... yn debyg iawn i ti yn ysgrifennu llythyr at Siôn Corn!

**DENMARC**

- Mae gwledd y Nadolig yn cael ei bwyta ar noswyl y Nadolig
- Mae pawb yn bwyta rhyw fath o bwdin reis arbennig a chaiff cneuen almwnd ei chuddio ynddo. Bydd pwy bynnag sy'n darganfod y gneuen yn cael lwc dda am y flwyddyn sydd i ddod.

**5 ffaith ddiddorol am y Nadolig:**

- Dim ond saith Nadolig gwyn a gafodd y wlad hon drwy gydol yr ugeinfed ganrif.
- Bob blwyddyn mae 35 miliwn o goed Nadolig yn cael eu haddurno!
- Rhwng 1647 a 1660 penderfynodd y Llywodraeth fod dathlu'r Nadolig yn anghyfreithlon!
- Crëwyd y cerdyn Dolig cyntaf ym 1843 gan Syr Henry Cole.
- Dyn o'r enw Edward Johnson a gafodd y syniad o roi goleuadau ar goeden Nadolig ym 1879.

Lluniau: Dorian S Davies

Deunydd darllen:
<u>Cip</u>
Rhagfyr 2006

| | | |
|---|---|---|
| Gwir neu gau?<br>Yn Ethiopia maen nhw'n dathlu'r Nadolig ar Ionawr y 7fed. | Gwir neu gau?<br>Rydyn ni'n dathlu'r Nadolig ar Ragfyr y 24ain. | Gwir neu gau?<br>Yn Nenmarc maen nhw'n bwyta gwledd y Nadolig ar noswyl Nadolig. |
| Gwir neu gau?<br>Dydy pobl Mecsico ddim yn rhoi anrhegion i'w gilydd. | Gwir neu gau?<br>Bob blwyddyn mae 35 o goed Nadolig yn cael eu haddurno ar draws y Byd. | Gwir neu gau?<br>Crëwyd y cerdyn Nadolig cyntaf gan Syr Henry Cole ym 1843. |
| Gwir neu gau?<br>Yn Armenia mae'r plant yn rhoi orennau yn anrhegion i'w gilydd. | Gwir neu gau?<br>Mae gŵyl y flwyddyn newydd yn ŵyl gyffrous iawn ym Mecsico. | Gwir neu gau?<br>Dim ond saith Nadolig gwyn a gafodd Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. |
| Gwir neu gau?<br>Mae plant bach Mecsico yn danfon eu llythyron at y *Magi*— sy'n debyg i'n Siôn Corn. | Gwir neu gau?<br>Yng Nghymru mae pobl yn dathlu'r Nadolig ar y traeth. | Gwir neu gau?<br>Dydy pobl Armenia ddim yn hoffi canhwyllau. |


# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU YN 100 OED

Dychmyga gael penrhyddid i chwilota drwy gasgliad enfawr o ffilmiau, lluniau, llyfrau a mapiau. Dychmyga gael y cyfle i fod yn ddetectif sy'n chwilio drwy eitemau hen a newydd sbon i ganfod cliwiau, a dod â'r rhain at ei gilydd ar ffurf atebion. Wel dyna sy'n digwydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru! A dyna mae pobol o bob rhan o'r byd yn ei wneud drwy fynd at wefan y Llyfrgell Genedlaethol ble mae cannoedd o filoedd o eitemau i'w gweld, eu darllen a'u hastudio arlein.



Llyfrgell Genedlaethol Cymru LlGC

Lle ar gyfer darganfod yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Lle i ti chwilio am ffeithiau, gwybodaeth, delweddau a syniadau. Mae'r Llyfrgell yn llawn trysorau o bob math, yn lyfrau lliwgar a llawysgrifau prin a hardd, mapiau cynnar a diweddar, hen ffotograffau brau a rhai digidol, a rhaglenni teledu hen a newydd.



Daguerreoteip Castell Margam, 1841 LlGC

Eleni mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn dathlu ei chanmlwyddiant drwy arddangos rhai o brif drysorau Cymru. Yn eu plith mae llawysgrifau Cymraeg fel Llyfr Du Caerfyrddin, y ffotograff cyntaf o olygfa yng Nghymru, a'r llyfr cyntaf i gael ei argraffu yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r rhain ceir deunydd mwy modern fel ffilmiau, cerddoriaeth, llythyrau a dyddiaduron – i gyd yn adrodd hanes Cymru fel cenedl neu hanes y Llyfrgell ei hun.



Casgliad Geoff Charles LlGC



Casgliad Geoff Charles LlGC

www.llgc.org.uk

## NANW A'I FFRINDIAU DRYGIONUS




Antur Fawr Nanw LlGC

Beth am roi cynnig ar chwarae gêm gyfrifiadurol gyffrous o'r enw ANTUR FAWR NANW? Nod y gêm yw helpu cymeriad o'r enw Nanw i chwilio am saith o drysorau'r Llyfrgell sydd wedi cael eu cuddio gan ei ffrindiau drygionus, a'u dychwelyd yn ddiogel i'r Llyfrgellydd.

Mae Nanw'n teithio drwy'r Llyfrgell, y gerddi, i ogofau cudd, i'r traeth ac i gelloedd cyfrinachol Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrth chwilio am eitemau. Mae'r chwaraewyr gorau a chyflymaf yn cael cyflwyno'u henwau i'r Tabl Sgôr Uchel. Mae Nanw hefyd yn gallu cynnig cyngor cudd i dy helpu i ddod o hyd i'r trysorau: http://dysgle.llgc.org.uk/cymraeg/nanw



Cambriae Typus gan Humphrey Llwyd, 1573 LlGC



Gwasanaeth Addysg Llyfrgell Genedlaethol Cymru LlGC

## GWASANAETH ADDYSG

Pam na wnei di ofyn i dy athrawon neu dy rieni i drefnu dod i'r Llyfrgell i weld rhai o'r trysorau sydd yma? Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru Wasanaeth Addysg i dy helpu i ymchwilio a chanfod gwybodaeth: http://dysgle.llgc.org.uk

**e-bost** – addysg@llgc.org.uk
**ffôn** – 01970 632913 neu 01970 632528
**gwefan** – www.llgc.org.uk

## FFEITHIAU DIDDOROL AM Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL

- Petai ti'n gosod holl silffoedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn un rhes fe fydden nhw'n ymestyn am dros 120 o filltiroedd!
- Mae un ystafell yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ei gorchuddio o'r llawr i'r nenfwd mewn copr. Yn yr ystafell hon mae casgliad Archif Genedlaethol Sgrîn a Sain Cymru o dapiau sain, rhaglenni teledu a ffilmiau yn cael eu cadw.
- Beth sydd 33 gwaith yn uwch na Mynydd Everest? Yr holl lyfrau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi eu gosod un ar ben y llall!
- Mae ambell i beth digon rhyfedd yn y Llyfrgell, fel cudyn o wallt yr emynydd William Williams, Pantycelyn!
- Yr eitem hynaf yng nghasgliad y Llyfrgell yw darn o bapyrus o'r Aifft sy'n dyddio nôl i'r flwyddyn 113 O.C.



Cyfraith Hywel Dda, 13ed G LlGC

Dyn y Sidydd, Llawysgrif gan



# Y Llyfrgell Genedlaethol

**Darllenwch y daflen wybodaeth ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Mae'r llyfrgell yn llawn trysorau o bob math. Nodwch bum peth.
2. Beth wyddoch chi am arddangosfa o brif drysorau Cymru yn ystod canmlwyddiant y Llyfrgell?
3. Beth ydych chi'n credu sydd wedi ehangu'r defnydd o'r Llyfrgell Genedlaethol?
4. Rhowch gyfarwyddiadau ar sut mae chwarae'r gêm gyfrifiadurol Antur Fawr Nanw.
5. Nodwch rai o ffeithiau diddorol am y Llyfrgell.
6. Sut buasech chi'n cysylltu â'r Llyfrgell?
7. Yn eich barn chi, sut adeilad yw'r Llyfrgell?
8. Beth yw eich barn chi am y daflen wybodaeth? Trafodwch y gosodiad, y cynnwys a'r wybodaeth.



# Dawns y Dail

gan

T. Llew Jones

**Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth ydych chi'n credu yw'r dawnswyr?
2. O ble y daw'r dawnswyr?
3. Nodwch bum peth y mae'r bardd yn ei wneud?
4. Beth wyddoch chi am wynt yr hydref?
5. Eglurwch sut mae'r llinellau a'r penillion wedi eu gosod.
6. Pa eiriau yn y gerdd sy'n cyfleu pethau sydd i'w clywed?
7. Ydych chi'n credu bod y teitl yn un da? Pam?
8. Beth yw eich barn am y gerdd?





# Sioni Wynwns

gan

Dic Jones

**Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth ydych chi'n ei wybod am Sioni Wynwns? Chwiliwch am nifer o ffeithiau.
2. Beth sydd yn digwydd ym mhennill ola'r gerdd?
3. Eglurwch pam mae'r bardd yn dweud bod ei 'iaith yn od'.
4. Eglurwch sut mae'r llinellau a'r penillion wedi eu gosod.
5. Ydych chi'n credu bod 'Sioni Wynwns' yn enw da i'r cymeriad? Pam?
6. Beth ydych chi'n credu yw 'tam'?
7. Beth yw eich barn am y gerdd?





# Y BEIBL

## Cynnwys — Yr Hen Destament


| *Enw'r Llyfr* | *Tudalen* |
| --- | --- |
| Llyfr Genesis | 1 |
| Llyfr Exodus | 45 |
| Llyfr Lefiticus | 82 |
| Llyfr Numeri | 109 |
| Llyfr Deuteronomium | 147 |
| Llyfr Josua | 180 |
| Llyfr y Barnwyr | 201 |
| Llyfr Ruth | 223 |
| Llyfr Cyntaf Samuel | 226 |
| Ail Lyfr Samuel | 256 |
| Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd | 281 |
| Ail Lyfr y Brenhinoedd | 309 |
| Llyfr Cyntaf y Cronicl | 336 |
| Ail Lyfr y Cronicl | 361 |
| Llyfr Esra | 392 |
| Llyfr Nehemia | 400 |
| Llyfr Esther | 413 |
| Llyfr Job | 420 |
| Llyfr y Salmau | 448 |
| Llyfr y Diarhebion | 527 |
| Llyfr y Pregethwr | 553 |
| Caniad Solomon | 560 |
| Llyfr Eseia | 565 |
| Llyfr Jeremiah | 623 |
| Llyfr Galarnad | 679 |
| Llyfr Eseciel | 685 |
| Llyfr Daniel | 731 |
| Llyfr Hosea | 744 |
| Llyfr Joel | 753 |
| Llyfr Amos | 757 |
| Llyfr Obadeia | 764 |
| Llyfr Jona | 765 |
| Llyfr Micha | 767 |
| Llyfr Nahum | 772 |
| Llyfr Habacuc | 775 |
| Llyfr Seffaneia | 778 |
| Llyfr Haggai | 781 |
| Llyfr Sechareia | 783 |
| Llyfr Malachi | 791 |



## Cynnwys— Y Testament Newydd


| *Enw'r Llyfr* | *Tudalen* |
|---|---|
| Yr Efengyl yn ôl Mathew | 1 |
| Yr Efengyl yn ôl Marc | 34 |
| Yr Efengyl yn ôl Luc | 55 |
| Yr Efengyl yn ôl Ioan | 91 |
| Actau'r Apostolion | 118 |
| Llythyr Paul at y Rhufeiniaid | 150 |
| Llythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid | 165 |
| Ail Lythyr Paul at y Corinthiaid | 179 |
| Llythyr Paul at y Galatiaid | 188 |
| Llythyr Paul at yr Effesiaid | 193 |
| Llythyr Paul at y Philipiaid | 198 |
| Llythyr Paul at Y Colosiaid | 201 |
| Llythyr Cyntaf Paul at Y Thesaloniaid | 205 |
| Ail Lythyr Paul at y Thesaloniaid | 208 |
| Llythyr Cyntaf Paul at Timotheus | 210 |
| Ail Lythyr Paul at Timotheus | 214 |
| Llythyr Paul at Titus | 217 |
| Llythyr Paul at Philemon | 219 |
| Y Llythyr at yr Hebreaid | 220 |
| Llythyr Iago | 230 |
| Llythyr Cyntaf Pedr | 234 |
| Ail Lythyr Pedr | 238 |
| Llythyr Cyntaf Ioan | 241 |
| Ail Lythyr Ioan | 245 |
| Trydydd Llythyr Ioan | 246 |
| Llythyr Jwdas | 247 |
| Datguddiad Ioan | 248 |



Darllenwch restr Cynnwys yr Hen Destament ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth ydy'r degfed llyfr yn yr Hen Destament?
2. Enwch bedwar llyfr sy'n dilyn Llyfr y Diarhebion.
3. Pa lyfr a welir ar dudalen 309?
4. Beth ydy'r llyfr olaf yn yr Hen Destament?
5. Pa lyfr yw'r llyfr mwyaf yn yr Hen Destament?
6. Sawl tudalen yw'r llyfr mwyaf?
7. Mae nifer o lyfrau wedi eu henwi ar ôl cymeriadau'r Hen Destament. Enwch rai sydd yn gyfarwydd i chi.
8. Ydych chi'n credu bod y Beibl yn lyfr pwysig? Pam?

Darllenwch restr Cynnwys y Testament Newydd ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth ydy'r ail lyfr yn y Testament Newydd?
2. Ysgrifennodd Paul nifer o lythyrau. At bwy?
3. Pa lyfr a welir ar dudalen 230?
4. Beth ydy cynnwys y mwyafrif o'r lly-frau?
5. Sawl llyfr sydd yn y Testament newydd?
6. Heblaw am Paul, enwch bedwar person arall a ysgrifennodd lythyrau.
7. Pwy sy'n debygol o ddarllen y Beibl?
8. Ydych chi'n gwybod rhai o storiau'r Beibl?



Llyfr HENO, HENO .....

Casgliad o Straeon Amser Gwely


## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Nel y Sbel *Gwyn Thomas* | 1 |
| Yr Anghenfil ych-a-fi *Ruth Ainsworth, addaswyd Eluned Ellis Jones* | 4 |
| Ben Bantam a'r wasgod goch *Ray Evans* | 9 |
| Bresychen fawr Mistar Medra *Mair Wynn Hughes* | 12 |
| Y blaidd a'r saith myn gafr *adroddwyd gan T.Llew Jones* | 16 |
| Pitar y deryn du *Elfyn Pritchard* | 18 |
| Sioni ganolig *Moira Miller, addaswyd gan Tegwyn Jones* | 22 |
| Deiniol y dewin diog *Loreen Williams* | 25 |
| Y ras fawr *addaswyd gan Gwenno Hywyn* | 28 |
| Dafydd a'r seren wib *Alys Jones* | 32 |
| Bob bob-lliw *Malcolm Carrick, addaswyd gan Jini Owen* | 36 |
| Igo-Igi a'r fideo *Rhiannon Ifans* | 38 |
| Gwe'r pry' copyn *adroddwyd gan D.J.Williams* | 42 |
| Dan y broga *Ray Evans* | 44 |
| Octopws Gwenno *Siân Lewis* | 48 |
| Y pedwerydd brenin *adroddwyd gan T.Llew Jones* | 51 |


**Darllenwch restr Cynnwys Llyfr HENO, HENO.... ac atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth ydych chi'n meddwl yw pwrpas y rhestr Cynnwys?
2. Nodwch bum stori sy'n ymwneud â byd natur?
3. Beth sy'n gwneud 'Deiniol y Dewin Diog' yn deitl da?
4. Pwy sydd yn berchen ar octopws?
5. Pwy ydy Siân Lewis?
6. Pa stori sy'n apelio fwyaf atoch? Pam?
7. Esboniwch sut mae gwahaniaethu rhwng teitl y stori a'r awdur.
8. Beth ydych chi'n credu yw arwyddocâd teitl y gyfrol?
9. Ydych chi'n credu bod y storiau i gyd yn addas fel straeon amser gwely? Pam?





Fy Hanes i

*Dydd Gwener, Awst 30, 1940*

*Neithiwr, roedd pob man yn llonydd ac yn glir. Wrth iddo gychwyn am ei shifft nos, edrychodd Dad i fyny i'r awyr a dweud, yn ddifrifol, 'Os ydyn nhw am ddod, noson fel heno fydd hi.'*

*Ac yn siŵr i chi, fe ganodd y rhybudd cyntaf ychydig funudau wedi naw. Roedd Mam allan, yn safle'r ARP, a Shirl, Tom a finna yn swatio yn y cwt mochel efo Chamberlain.*

*Cyn pen dim, roedd dannedd Shirl yn clecian. 'Nefi wen!' meddai. 'Sut le fydd yma ganol gaea? Alla i ddim teimlo bodiau 'nhraed o gwbwl.'*

*Mi allwn i weld fod Tom ar fin agor ei geg i ddweud rhywbeth clyfar pan glywson ni'r ffrwydrad cyntaf, ac yna ddau ffrwydrad arall ar ei gwt . . .*

***Addasiad Eigra Lewis Roberts o destun Vince Cross***

Cynllun y clawr: Popperfoto
Cyhoeddwyr: Gwasg Gomer, Llandysul, Ceredigion SA44 4QL
www.gomer.co.uk

**£4.95**

ISBN 1-84323-135-2
9 781843 231356

Fy Hanes i BLITS Dyddiadur Edie Benson, Llundain 1940-1941 GOMER

gomer

Fy Hanes i

# BLITS

Dyddiadur

Edie Benson, Llundain 1940-1941


**Addasiad Eigra Lewis Roberts**




# Edrych ar glawr llyfr

**Darllenwch glawr 'Blits' ac atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth ydy ffurf y nofel hon?
2. Beth ydy'r dyddiad ar ben y broliant?
3. Ble oedd Edie Benson yn byw yn ystod y Blits?
4. Ar ôl darllen y detholiad o'r dyddiadur, esboniwch beth ddigwyddodd tua naw o'r gloch.
5. Ble roedd y plant yn cuddio?
6. Sut le oedd hwn?
7. Roedd Shirl yn oer. Sut ydyn ni'n gwybod?
8. A buasech chi'n hoffi darllen y llyfr? Pam?



**taflen** hon *eb* (taflenni) tudalen o bapur (weithiau wedi'i blygu) yn cyflwyno gwybodaeth LEAFLET
**taflennu** *be* gosod mewn tablau, rhestru TO TABULATE
**tafliad** hwn *eg* (tafliadau)
**1** y weithred o daflu A THROW
**2** y pellter y mae rhywbeth wedi cael ei daflu (*Enillodd y gystadleuaeth â thafliad o dros hanner can metr.*) A THROW
**taflod** hon *eb* (taflodydd) y llofft neu'r oriel mewn beudy neu ysgubor, lle yr oedd gwair yn cael ei gadw LOFT
**taflod y genau** to'r geg y tu ôl i'r dannedd ac uwchben y tafod PALATE
**taflu** *be*
**1** codi rhywbeth a'i hyrddio trwy'r awyr; lluchio TO THROW
**2** symud y corff neu ran o'r corff yn gyflym ac yn nerthol (*taflu dwrn*) TO THROW
**3** bwrw pluen i'r dŵr â gwialen bysgota TO CAST
**4** cael gwared ar rywbeth (*Rwyf wedi taflu'r hen esgidiau duon 'na i'r bin.*) TO THROW AWAY
**5** llunio darn o grochenwaith ar olwyn crochenydd TO THROW
**6** gwneud i rywbeth neu rywun gwympo fel mewn gornest ymaflyd codwm TO THROW
**7** rholio dis TO THROW
**8** lluchio rhywbeth i'r awyr er mwyn iddo gael ei ddal TO TOSS
**9** creu llun neu gysgod trwy gyfeirio neu rwystro goleuni; bwrw TO CAST, TO PROJECT (teflais, teifl)
**taflu dŵr oer** gw. **dŵr**
**taflu pàs** pasio pêl rygbi TO PASS
**tafluniad** hwn *eg* (tafluniadau) ffordd o gyflwyno arwyneb crwm (megis wyneb y Ddaear) ar arwyneb gwastad (megis map) PROJECTION


tafluniad

**taflunydd** hwn *eg* (taflunyddion) peiriant ar gyfer taflu llun ar sgrin, e.e. *taflunydd ffilmiau, sleidiau ac ati* PROJECTOR
**tafod** hwn *eg* (tafodau)
**1** organ symudol o fewn y geg sy'n cael ei ddefnyddio i flasu bwyd ac i siarad TONGUE
**2** unrhyw beth sydd yr un siâp â'r tafod (e.e. y rhan o esgid sy'n gorwedd dan y careiau neu ddarn o dir sy'n ymwthio i'r môr) TONGUE
**3** tafod tegell, sef y rhan honno yng ngwaelod tegell trydan sy'n twymo'r dŵr ELEMENT
**a'm ('th, 'i etc.) tafod yn fy moch** cymryd arnaf, esgus bod TONGUE-IN-CHEEK
**ar dafod leferydd**
**1** wedi'i adrodd, ar lafar SPOKEN
**2** wedi'i ddysgu ar y cof BY HEART
**3** yn wybyddus i bawb
**ar flaen fy (dy, ei etc.) nhafod**
**1** bron dweud, ar fin dweud ON THE TIP OF MY TONGUE
**2** ar fin cofio ON THE TIP OF MY TONGUE
**blas tafod** gw. **blas**
**cael tafod** cael cerydd TO BE GIVEN A TALKING TO
**dal fy (dy, ei etc.) nhafod** gw. **dal**
**heb flewyn ar fy (dy, ei etc.) nhafod** gw. **blewyn**
**pryd o dafod** gw. **pryd**
**rhoi tafod drwg i (rywun)** dwrdio, dweud y drefn TO SCOLD
**uniad tafod a rhych** gw. **uniad**
**tafodi** *be* dweud y drefn, rhoi pryd o dafod i rywun, dwrdio, difrïo TO SCOLD
**tafodiaith** hon *eb* (tafodieithoedd) ffurf arbennig ar iaith lafar un ardal sy'n wahanol i iaith lafar ardal arall DIALECT
**tafodieithol** *a* gair i ddisgrifio rhyw air neu ymadrodd sy'n perthyn i dafodiaith COLLOQUIAL
**tafodrydd** *a* gair i ddisgrifio rhywun sy'n siarad gormod; siaradus GLIB, GARRULOUS
**tafol**¹ hon *eb* peiriant pwyso, clorian, mantol SCALES □ *clorian*
**tafol**² mwy nag un dafolen [**tafolen**]
**dail tafol** gw. **dail**
**tafolen** hon *eb* (tafol) planhigyn cyffredin â dail bras, llydan sy'n tyfu ger heolydd DOCK □ *blodau* t.618
**tafoli** *be* pwyso a mesur gwerth rhywbeth naill ai mewn clorian neu yn ffigurol (*Mae gan gwmnïau teledu bobl sy'n tafoli poblogrwydd eu rhaglenni ar sail ymateb y cyhoedd.*) TO WEIGH UP, TO ASSESS
**taffi** hwn *eg* (taffis) math o losin neu dda-da brown gludiog wedi'i wneud trwy ferwi siwgr, menyn a dŵr gyda'i gilydd; cyflaith TOFFEE
**tagell** hon *eb* (tagellau)
**1** darn llac o groen yn hongian dan yr ên DOUBLE CHIN
**2** un o'r pâr o organau anadlu sydd gan bysgodyn, sy'n caniatáu iddo dynnu ocsygen o'r dŵr GILL □ *pysgodyn*



## Darllenwch y detholiad yma o <u>Geiriadur Gomer I'r Ifanc</u> ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Eglurwch beth yw arwyddocâd y geiriau ar ben y dudalen.
2. Disgrifiwch gosodiad y llyfr gan gyfeirio at bethau penodol ar y dudalen.
3. Defnyddir byrfoddau mewn geiriadur. Esboniwch beth ydy ystyr rhai ohonynt. e.e. *eb, eg, be,*
4. Chwiliwch y gair **tagell**. Esboniwch pam fod rhifau 1 a 2 yn ei ddilyn.
5. Chwiliwch dri enw benywaidd ar y dudalen.
6. Eglurwch beth yw'r geiriau mewn priflythrennau.
7. Eglurwch beth ydy pwrpas geiriadur gan nodi o leiaf dri pheth.





# Mynegai


A
achos llys 51
*Adventure Galley* 34-35, 36
Affrica 16, 22-26
angor 35
Alban, yr 12
Alwilda 56
*Amity* 31
Angria, teulu 28
Angria, Kanhoji, 29, 56
Anstis, Thomas 50
Arabiaid 23, 39
arfau 46, 47
archaeolegwyr 6, 7, 60
arfdy 34, 61
Avery, Henry, 30, 31, 40, 50, 56

B
Baltig, Môr 12
baneri 40-41
Barbari, Arfordir 23, 24-25
Bart, Jean 13, 56
Barti Ddu 22-23, 40, 55 (llyfr), 59
Bartolomeo 'el Portugees' 17, 56
Bellamy, Sam 6, 7, 56
blacjac 40, 60
Blackbeard *gweler* Teach, Edward
Bonnet, Stede 21, 56
Bonny, Anne 19, 56
Borneo 33, 53
Brasiliano, Roche 17, 56
brodyr Barbarossa 25, 56
Brodyr yr Arfordir, 16
Brooke, James 53
Brown, Nicholas 56
bycanîr 5, 7, 16-17, 18, 19, 35, 46, 60
Byd Newydd, y 15, 61

C
caethwasiaeth 23, 60
'Calico Jack' *gweler* Rackham, John
canibaliaeth 43, 60
calcio 27, 60
capstan 34, 35, 60
carafel 14, 15, 60
Caribî 5, 14, 16-17, 20, 35, 46, 49, 54
Cartagena 5
Cefnfor India 23, 26, 29, 31, 32
ceufad 17, 60
Cheng I 33
Ciliciaid 8-9, 39, 48
Clifford, Barry 7
clymau 37
Coch, Môr 26, 30, 31
Columbus, Christopher 15
Condent, Christopher 40, 56
*corsair* 5, 13, 15, 23, 24, 25, 60
cosbi 45
Cristnogion 24, 25, 31, 39
crocbren 50, 60
Cuba 14, 16
Cui Apu 32, 56
cwmpawd 41, 60
cwpwrdd Dafi Jones 49
Cymru 12
cytlas 46, 47, 60

D
Dampier, William 7, 5
Danziger, Simon 25, 57
Davies, Hywel 23, 41, 57
Dafi Joos, cwpwrdd 49
Dayakiaid 33, 53
Defoe, Daniel 27
*Derby* 28
dhow 39, 60
dienyddio 50-51, 60
dwblŵn 49, 60
Drake, Syr Francis 5, 15, 57
Duguay-Trouin, Rene 13, 57

E
East Indiaman 28, 29, 38, 48
Easton, Peter 57
England, Edward 26, 57
Eustace 'y Mynach Du' 12, 57
Evans, John 57
Esquemelin, Alexandre, 7, 57

F
*Fancy* 30
*Fateh Muhammad* 50
Fleury, Jean 14, 57
Fuuet, Antonio 57

Ff
ffilmiau 55
Ffrainc 9, 10, 16

G
gafaelfach 37, 60
gali 8, 38, 39, 60
galiwn 14, 35, 38, 39, 60
*Gang-i-Sawai* 30
Gilbert a Sullivan 55
Gini, Arfordir 23, 26, 31
glanhau llong 27, 60
Gogledd America 10
Gogledd, Môr y 12
Groegiaid 4, 9, 55
Grønland 10
Gwaredianwyr 25, 60
Gwlad yr Iâ 10, 25
Gwlff, y 29, 31
gwylio 43, 61

H
Hands, Israel 46
Hanslein, Klein 12, 57
'hard tack' 43
Hawnkins, Syr John 57
herwgipio 54, 60
Hispaniola 5, 16, 55
Hugues, Victor 57
hwrdd rhyfel 8, 60
hwyliau 36
hwyl-lath 36, 37, 60

I
iawndal 45, 60
Ilanun, môr-ladron 33
India 30
India, Cefnfor 23, 26, 29, 31, 32
Iwerddon 10, 12

J
*Jac Jamaica* 55
Jamaica 16, 18, 19
Jansz, Jan 25, 57
Japan 33
Jones, John Paul 58
jync 38, 60




**Darllenwch y Mynegai o lyfr 'Byd Môr-ladron' ac atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Enwch dri pheth a welir ar dudalen 12.
2. Ble yn y llyfr y gwelir hanes Victor Hughes?
3. O dan ba ran o'r mynegai y daethoch o hyd i Victor Hughes? Esboniwch y rheswm am y lleoliad.
4. Esboniwch pam fod mwy nag un rhif gyferbyn â 'Groegiaid'.
5. Oes rhywbeth yn y Mynegai yn apelio atoch? Pam?
6. Beth wyddoch chi am fôr-ladron?
7. Beth yw eich barn chi ar sut y cyflwynwyd y mynegai yn y llyfr hwn?

## Dal Smyglwyr

Yr wythnos hon bu gohebydd papur newydd yn treulio diwrnod yn dilyn gwaith Dafydd Evans, swyddog tollau mewn maes awyr ers pum mlynedd.



**4.00 a.m.** Codi! Dafydd yn gweithio ar y shifft gynnar yr wythnos hon. "Mae'n anodd iawn codi yng nghanol nos," meddai Dafydd yn flinedig, "ac ar ben hynny mae'n cymryd dros awr i mi yrru i'r gwaith."

**6.00 a.m.** Cychwyn ar ei waith yn y maes awyr. Mae'n mwynhau cyfarfod pobl o bob rhan o'r byd a chael sgwrs.

**8.00 a.m.** Coffi. Nid oes awyren arall yn cyrraedd tan 8.45 a.m. ac mae'n gallu bod yn ddiflas sefyll o gwmpas yn gwneud dim ond disgwyl weithiau.

**10.00 a.m.** Prysur ofnadwy! Gormod i'w wneud nawr! Tair awyren wedi cyrraedd ar yr un pryd bron a rhai pobl yn gwylltio a bod yn gas am eu bod yn gorfod sefyll a disgwyl i gael archwilio eu bagiau.

**11.00 a.m.** Cinio cynnar. Dros ginio mae Dafydd yn sôn am y pethau mae wedi dod o hyd iddynt ym magiau teithwyr. Meddai Dafydd, "Mae'n ddiddorol iawn cael gweld beth mae pobl yn ei roi mewn bagiau. Un tro roedd bachgen bach wedi ceisio cuddio ei hamster mewn câs pensiliau er mwyn i'r hamster gael mynd ar wyliau! Mae hwyl i'w gael weithiau."

**12.00 p.m.** Gŵr yn cael ei arestio ar ôl i Dafydd ddarganfod ei fod wedi ceisio smyglo croen crocodeil i'r wlad. Roedd Dafydd yn hapus iawn ei fod wedi dal rhywun yn torri'r gyfraith. "Dyna yw fy ngwaith," meddai Dafydd gyda gwên, "er y bydd rhaid i mi ysgrifennu adroddiad hir i'r heddlu nawr, mae hynny yn gallu bod yn ddiflas."

**2.00 p.m.** Diwedd diwrnod gwaith Dafydd am heddiw. "Mae pob diwrnod yn wahanol yn y swydd yma, sydd yn beth braf iawn," dywedodd. "Er bod rhai pethau nad wyf yn eu hoffi am y swydd weithiau, ni fuaswn yn ei newid am y byd."

Deunydd darllen TASau — 2001

## Darllenwch ddyddiadur y gohebydd papur newydd ac atebwch y cwestiynau canlynol:

1. Beth ydy prif ddyletswyddau Dafydd Evans, swyddog tollau yn y maes awyr?
2. Beth ydych chi'n credu sy'n gwneud y swydd yn ddiddorol?
3. Nodwch bum peth sydd ddiflas am y swydd.
4. Ydych chi'n credu bod gosodiad y ddyddiadur yn ei wneud yn hawdd i'w ddarllen? Pam?
5. Beth yw eich barn chi am swydd Dafydd Evans? Pam?
6. Pa fath o berson yw Dafydd Evans? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
7. Ym maes awyr Caerdydd mae Dafydd Evans yn gweithio. Sut mae ei swydd yn wahanol i swyddog sydd yn gweithio ym maes awyr Heathrow, Llundain?
8. Mae swyddog tollau yn gweithio ym mhorthladd Abergwaun hefyd. Eglurwch sut mae'r swydd yn gwahaniaethu yno.




**Trefnwch y brawddegau canlynol i adrodd stori Branwen, Gwenllian a Llio.**
**Mae'r darn yn seiliedig ar stori <u>Merched y Môr</u> gan T. Llew Jones**

| |
|---|
| Yna, clywodd Dylan, Brenin y Môr, am y merched. |
| Unwaith, roedd hen ŵr yn byw mewn plas ger Ceinewydd. |
| Byddai bechgyn yn dod o bob man i weld Branwen, Gwenllian a Llio. |
| Penderfynodd Dylan ei fod eisiau'r merched ddod ato i fyw o dan y môr. |
| Wrth i'r hen ŵr gerdded ar y traeth, daeth tair gwylan ato – roedd ei ferched wedi dychwelyd. |
| Cododd storm enfawr a chipio'r merched i ffwrdd. |
| Roedd gan yr hen ŵr dair o ferched, yr harddaf yn y byd! |
| Yn feunyddiol, byddai'r hen ŵr yn crwydro'r traeth yn galw ar ei ferched. |

# Sbwriel!

**Mae'r siart yma yn dangos y math o sbwriel sydd yn ein biniau.**




Siart o lyfr 'Gwastraff' gan Rhiannon Packer (Gwasg Gomer)

**Darllenwch y siart ac atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Enwch bum peth yn y bin sydd yn llai na deg y cant?
2. Esboniwch beth ydy sbwriel o'r ardd.
3. Beth ydych chi'n credu yw sbwriel cegin?
4. Beth allwn ni ei wneud gyda'r mwyafrif o'r sbwriel hwn?
5. Pa fath o sbwriel yw'r canran mwyaf yn y bin?
6. Yn eich barn chi, ydy ailgylchu'r sbwriel yn bwysig? Pam?
7. Ydych chi'n ailgylchu? Pam?



## Dyma amserlen rhaglenni S4C

| DYDD IAU | DYDD GWENER |
|---|---|
| **07:00** Cyw | **07:00** Cyw |
| **12:00** Igi, Tigi, Bip a Bop - Dydd Iau | **12:00** Igi, Tigi, Bip a Bop - Dydd Gwener |
| **12:30** Cyw | **12:30** Cyw |
| **13:30** Y Tywydd | **13:30** Y Tywydd |
| **13:32** Wedi 7 | **13:40** Wedi 7 |
| **14:00** Ar y Lein - Kenya | **14:05** Lle Aeth Pawb? -Tim Peldroed Ysgol Pontygwaith |
| **14:30** Pobol y Cwm | **14:30** Pobol y Cwm |
| **14:58** Y Tywydd | **14:58** Y Tywydd |
| **15:00** Wedi 3 | **15:00** Wedi 3 |
| **16:00** Planed Plant | **16:00** Planed Plant |
| **18:00** Mosgito | **18:00** Uned 5 |
| **18:30** Rownd a Rownd | **19:00** Ralio |
| **19:00** Wedi 7 | **19:30** Newyddion |
| **19:30** Newyddion | **19:58** Y Tywydd |
| **19:58** Y Tywydd | **20:05** Pobol y Cwm |
| **20:00** Pobol y Cwm | **20:30** Cefn Gwlad - Rhychio Llanerchaeron |
| **20:25** Pawb a'i Farn - Gerddi Botaneg | **21:00** Y Tywydd |
| **21:25** Y Tywydd | **21:02** Penawdau Newyddion |
| **21:27** Penawdau Newyddion | **21:05** Ista'nbwl |
| **21:30** Con Passionate | **21:35** 2 Dŷ a Ni |
| **22:35** Bandit | **22:05** Cwpan Heineken |
| **23:05** Hacio | **23:12** Y Pris |
| **23:23** Y Tywydd | **23:55** Ralio |
| | **00:25** Bandit |
| | **00:53** Y Tywydd |

# Amserlen Rhaglenni S4C

**Edrychwch ar yr amserlen ac atebwch y cwestiynau.**

1. Beth yw'r rhaglen gyntaf ar ddydd Gwener?
2. Beth yw'r rhaglen olaf ar ddydd Iau?
3. Pa raglen sydd ar ddydd Iau am wyth o'r gloch yr hwyr?
4. Pa raglen sydd ar ddydd Gwener am chwech o'r gloch yr hwyr?
5. Nodwch bum cyfnod y gallwch weld rhagolygon y tywydd ar ddydd Iau.
6. Darlledir y newyddion am hanner awr wedi saith yr hwyr. Yn eich barn chi, ydy hyn yn amser addas? Pam?
7. Pa raglen buasech chi'n dewis ei gwylio? Pam?
8. Ydych chi'n hoffi gwylio'r teledu? Rhowch resymau am eich dewis.



## Lliwiau

Palet amryliw
ar y ddesg o'm blaen.

Esgid o saffir mewn awyr glir
yw'r Eidal.
Awstrlia fel darn o'r haul melyn wedi rhedeg
ar dywod aur.
Gwlad yr Iâ yn berl wen yn y môr
a'r Affrig fel pen eliffant bron
gyda stribedi ifori.

Yn y gornel
Welingtonsen ddu a'i phen i waered
yw Seland Newydd,
ac mae Iwerddon yn emrallt i gyd.

Ond mae un smotyn bach
fel ceg draig goch yn agor,
A'i liw megis gwaed—
Dyma Gymru.

Mae'r rhyfeddodau hyn i gyd
Yn fy Atlas lliwgar i.

Ifan Gwilym

Ifan Gwilym
(Adran Llanbedr Pont Steffan)
Cystadleuaeth Barddoniaeth
Blynyddoedd 3 & 4





# Lliwiau

gan

Ifan Gwilym

**Darllenwch y gerdd ac yna atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. Beth wyddoch chi am y bardd? Nodwch dri pheth.
2. Ble mae'r bardd a beth mae e'n ei wneud?
3. Sawl gwlad sy'n cael eu henwi?
4. Mae'r bardd yn creu delweddau i ddisgrifio'r gwahanol wledydd. Pa un yw eich hoff ddelwedd chi? Pam?
5. Ble yw'r *smotyn bach*?
6. Beth mae'r bardd yn dweud wrthon ni ar ddiwedd y gerdd?
7. Pam ydych chi'n meddwl bod y gerdd yma wedi dod i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1996?
8. Ydych chi'n hoffi'r gerdd? Pam?